OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 1395 (Cy.109) (C.60)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2005

*Wedi'i wneud - - 24 Mai 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adran 216(4)(b) a (5) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a chymhwyso**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2005.

**2.** Mae'r darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn yn cael eu dwyn i rym o ran Cymru.

**Dehongli**

**3.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**2**); a

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf 2002 a'r Atodlenni iddi.

**Y diwrnod penodedig**

**4.** 31 Mai 2005 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

**Darpariaethau Trosiannol**

**5.**—(1) Ni fydd y diwygiadau a wnaed gan baragraff 3 o Atodlen 4 yn gymwys o ran derbyn plant mewn blwyddyn ysgol yn gynharach na 2007-2008.

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) 1998 p.31.

(2) Er bod paragraff 10 a 11 o Atodlen 4 yn dod i rym, nid yw'r diwygiadau i adrannau 96 a 97 o Ddeddf 1998 yn effeithiol o ran penderfyniad a wnaed gan awdurdod addysg lleol cyn 31 Mai 2005 sy'n cyfarwyddo ysgol benodol i dderbyn disgybl.

(3) Os bydd rhiant wedi rhoi hysbysiad o apêl yn unol â pharagraff 9 o Atodlen 24 i Deddf 1998 cyn 31 Mai 2005 —

(a) mae adrannau 84(6) a 94 o Ddeddf 1998 ac Atodlen 24 iddi yn parhau i fod yn effeithiol ynglyn â'r apêl honno fel pe bai adran 50, paragraffau 2 a 8 o Atodlen 4 a diddymiad Atodlen 24 i Ddeddf 1998 heb ddod i rym; a

(b) mae adran 25(5)(c) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1974(**3**) yn parhau i fod yn effeithiol fel pe bai paragraff 2(a) o Atodlen 21 heb ddod i rym.

(4) Os bydd corff llywodraethu wedi rhoi hysbysiad o apêl yn unol â pharagraff 5 o Atodlen 25 i Ddeddf 1998 cyn 31 Mai 2005 —

(a) mae adrannau 84(6), 87 a 95 o Ddeddf 1998 ac Atodlen 25 iddi yn parhau i fod yn effeithiol ynglyn â'r apêl honno fel pe bai paragraffau 2 a 9 o Atodlen 4 a diddymiad Atodlen 25 i Ddeddf 1998 heb ddod i rym; a

(b) mae adran 25(5)(c) of Ddeddf Llywodraeth Leol 1974 yn parhau i fod yn effeithiol fel pe bai paragraff 2(a) o Atodlen 21 heb ddod i rym.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

24 Mai 2005

(**3**) 1974 p.7.
(**4**) 1998 p.38.

## YR ATODLEN

Erthygl 4

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 31 Mai 2005

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Pwnc* |
|---|---|
| Adran 50 | Apelau derbyn |
| Adran 51 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 4 isod | Diwygiadau pellach o ran derbyniadau |
| Adran 215(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 21 isod | Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol |
| Adran 215(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 22 isod | Diddymiadau |
| Atodlen 4, paragraffau 2, 3(1), (2), (3), (4), (5), (7), (8), 8, 9, 10, 11 | Trefniadau Derbyn |
| Atodlen 21 | Mân Ddiwygiadau a Diwygiadau Canlyniadol |
| Paragraffau 1, 2 a 22 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym | |
| Atodlen 22, Rhan 3, diddymu — | Diddymiadau |
| Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**5**), Atodlenni 24 a 25, | |
| Yn Atodlen 26, paragraffau 6(4), 8(9) a 15, | |
| Yn Atodlen 28, Rhan 2, | |
| Yn Atodlen 30, paragraffau 3(3), 47(a). | |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym adran 50 o Ddeddf Addysg 2002 (“Deddf 2002”) ar 31 Mai 2005. Mae adran 50 yn diwygio adran 94 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (“Deddf 1998”), fel bod y trefniadau ar gyfer apelau i baneli apêl yn erbyn penderfyniadau ynghylch derbyn plentyn i ysgol yn cael eu gosod mewn rheoliadau a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Gorchymyn hefyd yn dwyn i rym ar 31 Mai 2005 adran 51 o Ddeddf 2002 a darpariaethau yn Atodlen 4 i'r Ddeddf honno sy'n gwneud diwygiadau pellach i Ddeddf 1998 o ran derbyniadau i ysgolion.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn gwneud darpariaethau trosiannol. Mae'r diwygiadau i adran 86 o Ddeddf 1998 ynghylch hoff dewis rhiant a derbyniadau i ddosbarthiadau chwech yn gymwys o ran blwyddyn benderfynu 2005-06, pan benderfynir y trefniadau derbyn ar gyfer y flwyddyn ysgol 2007-08.

(**5**) 1998 p.31.

Nid yw'r diwygiadau i adrannau 96 a 97 o Ddeddf 1998 ynghylch pŵer AALlau i gyfarwyddo ysgol i dderbyn plant yn gymwys o ran penderfyniad i gyfarwyddo a wnaed cyn 31 Mai 2005.

O ran apelau derbyn a wnaed cyn 31 Mai 2005, mae darpariaethau Deddf 1998 sy'n ymwneud ag apelau o'r fath a darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1974 sy'n ymwneud ag awdurdodaeth yr ombwdsmon i fod yn effeithiol fel pe nas diwygiwyd gan Ddeddf 2002.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau canlynol Deddf Addysg 2002 wedi'u dwyn i rym mewn perthynas â Chymru trwy orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad* | *O.S. Rhif Cychwyn* |
|---|---|---|
| Adrannau 14 i 17 | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 18(2) | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 19(6) (yn rhannol) | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adrannau 21 a 22 | 1 Medi 2004 | 2004/1728 (Cy.172) |
| Adrannau 27 a 28 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 29 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 30 | 1 Medi 2004 | 2004/1728 (Cy.172) |
| Adran 32 | 1 Medi 2004 | 2004/1728 (Cy.172) |
| Adran 39(1) (yn rhannol) | 1 Medi 2004 | 2004/1728 (Cy.172) |
| Adran 40 (yn rhannol) | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 41 | 4 Rhagfyr 2003 | 2003/2961 (Cy.278) |
| Adran 42 | 4 Rhagfyr 2003 | 2003/2961 (Cy.278) |
| Adran 43 | 1 Tachwedd 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 46 | 1 Rhagfyr 2003 | 2003/2961 (Cy.278) |
| Adran 49 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 51 (yn rhannol) | 9 Ionawr 2004 | 2003/2961 (Cy.278) |
| (yn rhannol) | 31 Mawrth 2004 | 2004/912 (Cy.95) |
| Adran 52 (yn rhannol) | 9 Ionawr 2004 | 2003/2961 (Cy.278) |
| Adrannau 54 i 56 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adrannau 60 i 64 | 1 Awst 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 72 | 1 Awst 2004 | 2004/1728 (Cy.172) |
| Adran 75 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adrannau 97 a 98 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 99(1) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 100 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad* | *O.S. Rhif Cychwyn* |
|---|---|---|
| Adran 101 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 103 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adrannau 105 i 107 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 108 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 109 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adrannau 111 i 118 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 119 | 1 Hydref 2002 | 2002/2439 |
| Adran 120(1) a (3) i (5) | 1 Hydref 2002 | 2002/2439 |
| Adran 120(2) | 1 Awst 2003 | 2003/1667 |
| Adran 121 | 1 Hydref 2002 | 2002/2439 |
| Adran 122 i 129 | 1 Awst 2003 | 2003/1667 |
| Adran 130 (yn rhannol) | 1 Hydref 2002 | 2002/2439 |
| (yn llawn) | 1 Awst 2003 | 2003/1667 |
| Adran 131 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adrannau 132 a 133 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 134 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 135 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adrannau 136 i 140 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 141 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adrannau 142 i 144 | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 145 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 146 (yn rhannol) | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 148 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 149 | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 150 | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 151(2) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 152 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 154 | 31 Mawrth 2004 | 2004/912 (Cy.95) |
| Adran 155 | 1 Medi 2004 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 156 | 31 Mawrth 2004 | 2004/912 (Cy.95) |
| Adrannau 157 i 174 | 1 Ionawr 2004 | 2003/2961 (Cy.278) |
| Adran 176 | 1 Medi 2004 | 2004/1728 (Cy.172) |
| Adran 177 | 1 Awst 2004 | 2004/912 (Cy.95) |
| Adran 178(1) a (4) | 1 Awst 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad* | *O.S. Rhif Cychwyn* |
|---|---|---|
| Adran 179 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 180 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adrannau 181 i 185 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 188 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2003 | 2003/2961 (Cy.278) |
| Adran 189 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adrannau 191 i 194 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 195 (yn rhannol) | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| (yn llawn) | 1 Medi 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 196 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 197 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 198 | 31 Mawrth 2004 | 2004/912 (Cy.95) |
| Adran 199 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 200 | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 201 (yn rhannol) | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adrannau 202 a 203 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 206 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 207 a 208 | 9 Ionawr 2004 | 2003/2961 (Cy.278) |
| Adran 215 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| (yn rhannol) | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| (yn rhannol) | 1 Awst 2003 | 2003/1718 (Cy.185) a 2003/1667 |
| (yn rhannol) | 1 Medi 2003 | 2002/3185 (Cy.301) a 2003/1718 (Cy.185) |
| (yn rhannol) | 4 Rhagfyr 2003 | 2003/2961 (Cy.278) |
| (yn rhannol) | 1 Ionawr 2004 | 2003/2961 (Cy.278) |
| (yn rhannol) | 9 Ionawr 2004 | 2003/2961 (Cy.278) |
| (yn rhannol) | 31 Mawrth 2004 | 2004/912 (Cy.95) |
| (yn rhannol) | 1 Awst 2004 | 2004/912 (Cy.95) a 2004/1728 (Cy.172) |
| (yn rhannol) | 1 Medi 2004 | 2004/1728 (Cy.172) |
| Atodlen 1, paragraff 3 (yn rhannol) | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Atodlen 3, paragraffau 1 i 5 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Atodlen 4, paragraffau 1 a 4 | 9 Ionawr 2004 | 2003/2961 (Cy.278) |
| Paragraff 12(1), (3) i (5) | 31 Mawrth 2004 | 2004/912 (Cy.95) |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad* | *O.S. Rhif Cychwyn* |
|---|---|---|
| Atodlen 5 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Atodlen 9 | 1 Awst 2004 | 2004/1728 (Cy.172) |
| Atodlen 10, paragraffau 1, 6, 11 a 15 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Atodlen 11 | 1 Hydref 2002 | 2002/2439 |
| Atodlen 12, paragraffau 1, 2, 4(1) a (3), 6 a 7 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Paragraff 12(1) a (2) | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Atodlen 13, paragraffau 1 i 3, 5, 6, 7(1) a (3) ac 8 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Atodlen 14, paragraffau 1 i 7 | 1 Medi 2004 | 2004/1728 (Cy.172) |
| Atodlen 16, paragraffau 1 i 3 | 1 Rhagfyr 2003 | 2003/2961 (Cy.278) |
| Paragraffau 4 i 9 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Atodlen 17, paragraffau 5(1) i (4), (6) a 6 i 8 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Atodlen 18, paragraffau 1, 4, 5 a 7 | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Paragraff 8 (yn rhannol) | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Paragraffau 13 i 15 | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Paragraffau 2, 3, 6, 8 (yn llawn), 9 i 12 ac 16 i 18 | 1 Medi 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Atodlen 19 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Atodlen 20 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Atodlen 21 (yn rhannol) | 1 Hydref 2002 | 2002/2439 |
| (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| (yn rhannol) | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| (yn rhannol) | 1 Awst 2003 | 2003/1667 |
| (yn rhannol) | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| (yn rhannol) | 4 Rhagfyr 2003 | 2003/2961 (Cy.278) |
| (yn rhannol) | 1 Ionawr 2004 | 2003/2961 (Cy.278) |
| (yn rhannol) | 9 Ionawr 2004 | 2003/2961 (Cy.278) |
| (yn rhannol) | 31 Mawrth 2004 | 2004/912 (Cy.95) |
| (yn rhannol) | 1 Awst 2004 | 2004/1728 (Cy.172) |
| (yn rhannol) | 1 Medi 2004 | 2004/1728 (Cy.172) |
| Atodlen 22 (yn rhannol) | 1 Hydref 2002 | 2002/2439 |
| (yn rhannol) | 9 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad* | *O.S. Rhif Cychwyn* |
|---|---|---|
| (yn rhannol) | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| (yn rhannol) | 1 Awst 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| (yn rhannol) | 1 Medi 2003 | 2002/3185 (Cy.301), 2003/1718 (Cy.185) a 2003/1667 |
| (yn rhannol) | 4 Rhagfyr 2003 | 2003/2961 (Cy.278) |
| (yn rhannol) | 1 Ionawr 2004 | 2003/2961 (Cy.278) |
| (yn rhannol) | 9 Ionawr 2004 | 2003/2961 (Cy.278) |
| (yn rhannol) | 31 Mawrth 2004 | 2004/912 (Cy.95) |
| (yn rhannol) | 1 Awst 2004 | 2004/912 (Cy.95) |
| (yn rhannol) | 1 Medi 2004 | 2004/1728 (Cy.172) |

Mae amryw o ddarpariaethau Deddf Addysg 2002 wedi'u dwyn i rym mewn perthynas â Lloegr gan yr Offerynnau Statudol canlynol: O.S. 2002/2002 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/2018), O.S. 2002/2439 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/606 (wedi'i ddirymu) a 2003/2992), O.S. 2002/2952, O.S. 2003/124, O.S. 2003/1115, O.S. 2003/1667, O.S. 2003/2071 ac O.S. 2004/1318.